**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng S4C a Chymru Greadigol**

**Diben**

Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw amlinellu'r cytundeb partneriaeth rhwng Cymru Greadigol ac S4C. Wrth ei wraidd mae gweledigaeth gyffredin ar gyfer sector cynaliadwy, arloesol a chadarn sy’n tyfu yng Nghymru. Mae’r dirwedd ddarlledu’n newid yn gyflym, ac mae arloesi digidol yn datblygu yn barhaus ac yn cael effaith gynyddol ledled y byd. Ac yn y cyd-destun hwn y mae S4C a Chymru Greadigol yn gweithio i gefnogi’r gwaith o ddatblygu sector sgrîn deinamig o'r radd flaenaf yng Nghymru, sy'n ddwyieithog, yn gynrychioliadol, yn deg ac yn gynhwysol. Wrth inni geisio llunio ein dyfodol yn y cyd-destun hwn, y tu hwnt i bandemig COVID-19, rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i gefnogi gwasanaethau a chynnwys sy'n adlewyrchu Cymru, iddi'i hun ac i gynulleidfaoedd ymhellach i ffwrdd.

Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw’r cam cyntaf yn y broses o ffurfioli partneriaeth hirdymor rhwng Cymru Greadigol ac S4C. Ei fwriad yw adeiladu ar y berthynas gadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru ac S4C, a'r cysylltiadau cryfach rhwng y ddau sefydliad yn dilyn lansio Cymru Greadigol ym mis Ionawr 2020. Bydd yn manteisio ar gyfleoedd i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid ehangach, i sicrhau bod y gweithredu ar y cyd i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru mor fuddiol ag y bo modd.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut y bydd y ddau barti yn cydweithio'n strategol i sicrhau gwerth ychwanegol ar gyfer y sector sgrin Cymraeg, sy'n cael ei ariannu o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys arian Cymru Greadigol ei hun, gwariant S4C a buddsoddi mewn cryn dipyn o gynnwys gwreiddiol o Gymru bob blwyddyn, ei buddsoddiadau mewn sgiliau a phlatfformau, y cyllid ychwanegol mae S4C yn dod ag ef i Gymru o gydgynyrchiadau a'r effaith economaidd sylweddol y mae’r gwaith mae’n ei gomisiynu yn ei chael ar gwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gwahaniaethu rhwng rôl arweiniol Cymru Greadigol o ran llywodraethu a chyflawni ei gweithgareddau, ei swyddogaethau a'i blaenoriaethau ei hun, gan weithio gyda phartneriaid i elwa ar eu rolau arwain penodol, a rôl statudol S4C fel corff cyhoeddus nad yw wedi'i ddatganoli, gydag annibyniaeth olygyddol a gweithredol a pherthynas ar wahân ag Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU.

Mae manylion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael eu hamlinellu mewn dwy ran. Mae'r gyntaf yn nodi’r ymrwymiad mae’r partneriaid wedi’i wneud gyda’i gilydd i gyflawni cydweledigaeth ac amcanion cyffredin Cymru Greadigol ac S4C. Mae'r ail yn amlinellu ymrwymiad y gwahanol bartneriaid i gyflawni gweithgareddau a chanlyniadau penodol.

**Ein gweledigaeth**

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y diwydiannau creadigol yn un sy'n adeiladu ar lwyddiannau presennol i sbarduno twf ar draws y sector cyfan, gan ddatblygu sylfaen sgiliau o'r radd flaenaf, a gweithio tuag at arferion gwaith teg a chynhwysol, ehangu cefnogaeth a chreu enw da ar gyfer Cymru fel y lle i sefydlu busnes creadigol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y gall sector sgrîn lleol Cymru gystadlu'n rhyngwladol yn ogystal â bodloni'r galw domestig. Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n parhau i ddatblygu'n genedl greadigol sy'n arwain y byd, y mae ei chynnwys yn adlewyrchu ein gwlad ar y sgrin ac yn rhannu ein straeon lleol a chenedlaethol â gweddill y byd ar draws nifer o sianeli, wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pob cynulleidfa.

Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae'r sector yn ei chwarae wrth gefnogi twf economaidd, gyda rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu, gyda'r gwariant a'r buddsoddi cywir, y gallai'r sector adfer yn gyflymach nag economi'r DU yn gyffredinol. Yn 2019–2021, ychwanegodd S4C £141.1 miliwn at economi Cymru, ac amcangyfrifir iddi ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer 2,229 o weithwyr ledled Cymru. Mae rhanddeiliaid y sector yn tynnu sylw at rôl bwysig S4C wrth ddarparu swyddi mewn ardaloedd sydd â chyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig yng ngogledd a gorllewin Cymru. Mae rhanddeiliaid a chwmnïau cynhyrchu hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyfraniad diwylliannol ac ieithyddol S4C, o ran ei rhaglennu a'i heffaith economaidd anuniongyrchol.

Bydd ein perthynas gryfach drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ein galluogi i dargedu ein hadnoddau'n effeithiol, gan ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau ehangach a chanolbwyntio ar feysydd lle mae'r angen mwyaf a lle bydd yr enillion mwyaf.

Mae rôl y Memorandwm hefyd yn estyn i feysydd ehangach, ac mae ein cytundeb hefyd yn cynnwys y nod o gynyddu manteision ein gweithgareddau ar gyfer diwydiant, y gymdeithas a lles cymaint ag y bo modd. Un o'r prif bethau y bydd ein gwaith gyda'i gilydd yn canolbwyntio arno fydd cyfleoedd i gefnogi twf a dyfodol y Gymraeg, sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau a amlinellir yn y strategaeth *Cymraeg 2050,* gan gynnwys cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau'r iaith.

O fis Ebrill 2022, bydd holl arian cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded am y tro cyntaf. I gyd-fynd â hyn, bydd S4C yn lansio ei strategaeth pum mlynedd ar gyfer 2022–27, a fydd yn cynnwys ffocws ac ymrwymiad mewn perthynas â chynyddu ei gapasiti digidol, cefnogi'r Gymraeg a chreu a datblygu ffilmiau a dramâu Cymraeg, wrth barhau i gefnogi a datblygu ei fformatau ffeithiol a dogfennol.

Mae S4C wedi ymrwymo'n arbennig i gomisiynu cynnwys cynhwysol a chynrychioliadol a wneir gan weithlu a sector sy'n adlewyrchu Cymru fel y mae heddiw, ac i roi llwybr a chefnogaeth glir i dalent newydd ymsefydlu yn y sector. Mae S4C hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda'r sector cynhyrchu annibynnol mewn modd

---

1 Asesu effaith economaidd S4C yng Nghymru a'r DU, Ymchwil Arad, Mawrth 2021.

teg, cyson a chlir, fel yr amlinellir yn ei chod ymarfer ar gyfer comisiynu cynnwys, a'i Thelerau Masnach a ddatblygwyd mewn partneriaeth â TAC.

Bydd y ddau barti’n gweithio'n agos i sicrhau bod buddsoddiadau’n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, wrth hefyd gydnabod yr angen am eithriadau.

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod y sector sgrin yng Nghymru yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi cynaliadwyedd y sector yn yr hirdymor, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer swyddi hygyrch â chyflogau teg ac arferion gwaith teg, gan gadarnhau ei rôl fel cyfrannwr allweddol at lwyddiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru a’r adferiad yn dilyn COVID-19;
- Sicrhau llwyddiant rhyngwladol a chael ei gydnabod fel canolfan ragoriaeth ac arloesedd ar gyfer datblygu a chynhyrchu cynnwys, talent, criwiau crefft a thechnegol medrus, seilwaith, cwmnïau cyfleusterau, arddangosfeydd ac addysg ym maes ffilm;
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynrychiolaeth, o flaen y camera a’r tu ôl iddo – gan ddatblygu, denu a chadw talent amrywiol;
- Darparu cynnwys perthnasol a gwerthfawr sy'n portreadu ac yn adlewyrchu realiti, tirwedd, ieithoedd a diwylliannau'r wlad, mewn ffordd sy'n gymhellol i gynulleidfaoedd yn fyd-eang ac sy'n creu balchder yn lleol;
- Cefnogi ein gwahanol uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn y strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn ymrwymiad S4C, a darparu gwasanaethau a chynnwys Cymraeg sy'n diddanu, yn addysgu ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd ynghylch yr iaith – o siaradwyr newydd i'r rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg;
- Darparu'r capasiti i fodloni gofynion y sector ledled Cymru drwy gyflenwad digonol o gyfleusterau stiwdio o safon uchel;
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y sector cynhyrchu, a mabwysiadu achredu Albert, gan weithio tuag at ymrwymiad i sero-net;
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n cefnogi gwasanaethau newyddion a newyddiaduraeth amryfal yn y Gymraeg, ar draws amrediad o blatfformau.

Er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn, byddwn yn cydgysylltu ein gweithgareddau â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys darlledwyr a'r sector teledu a chynhyrchu digidol annibynnol a, lle bo hynny’n berthnasol, undebau llafur (yn enwedig o ran gwaith teg a chyflogau teg a sgiliau) a chyrff eraill y diwydiant.

Byddwn yn sicrhau bod gwaith partneriaeth rheolaidd yn mynd rhagddo, mewn modd strwythuredig, i ategu’r gwaith o gyflawni’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Bydd hyn yn cynnwys cwrdd yn ffurfiol bob chwarter i adolygu cynnydd a chytuno ar gamau gweithredu a rennir a chamau gweithredu sy'n benodol i bartneriaid.

**Ein huchelgeisiau cyffredin**

Bydd ein gwaith partneriaeth yn cael ei arwain gan yr uchelgeisiau canlynol y mae’r ddau barti yn eu rhannu:

1. **Twf economaidd**
2. **Datblygu, cefnogi a chynyddu talent amrywiol**
3. **Gwella proffil Cymru a’r ffordd mae’n cael ei phortreadu**
4. **Hyrwyddo'r Gymraeg**

## 1. Twf Economaidd

- Byddwn yn cydfuddsoddi mewn datblygu a chynhyrchu, gyda'r bwriad o sicrhau cynnwys Cymraeg newydd o ansawdd uchel ar draws amrediad o genres, gan gynnwys dramâu teledu, cyfresi ffeithiol a chynnwys ar-lein;
- Byddwn yn gweithio ar y cyd i gefnogi a datblygu’r gwaith o gynhyrchu ffilmiau Cymraeg;
- Byddwn yn nodi cyfleoedd ar gyfer cwmnïau cynhyrchu brodorol, gan hyrwyddo bod yn berchen ar asedau eiddo deallusol a thalent greadigol yn y gwaith hirdymor o ddatblygu sector cynaliadwy;
- Byddwn yn cydfuddsoddi mewn prosiectau peilot i brofi a chryfhau syniadau, lle bo hynny'n briodol;
- Byddwn yn cefnogi cynaliadwyedd a datblygu sgiliau drwy ganolbwyntio ar ddatblygu cyfresi sy'n dychwelyd, gan adeiladu ar yr amrediad presennol o gyfresi teledu sy’n cael eu comisiynu i ddychwelyd i S4C, i gefnogi cynaliadwyedd y sector yng Nghymru yn y tymor hwy;
- Byddwn yn ceisio atgyfnerthu enw da Cymru fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu teledu drwy fuddsoddiadau gan Gymru Greadigol ac S4C mewn seilwaith a sgiliau cynhyrchu;
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau ychwanegol o gronfa fasnachol S4C a chronfeydd Cymru Greadigol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial masnachol mentrau yn y sector creadigol yng Nghymru;
- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo buddiannau Cymru, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer rheoleiddio darlledu yn y DU sy’n addas i’r diben.

## 2. Datblygu, cefnogi a chynyddu talent amrywiol

- Byddwn yn gweithio tuag at ddatblygu diwydiant cynhyrchu mwy amrywiol a chynhwysol yn yr ystyr ehangaf, drwy annog amrediad ehangach o leisiau, storïau a safbwyntiau i gael eu clywed a chynnwys gweithlu mwy amrywiol y tu ôl i'r llen yn ogystal ag ar y sgrin;
- Byddwn yn targedu cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ein camau gweithredu i sicrhau sector mwy amrywiol a chynrychioliadol;
- Byddwn yn defnyddio holl allbynnau S4C i gefnogi syniadau, talent a fformatau newydd;
- Byddwn yn nodi ac yn cefnogi mentrau hyfforddi cynhwysol ac yn creu cyfleoedd datblygu proffesiynol yn y meysydd lle mae’r angen yn ôl y dystiolaeth. Bydd y maes gweithgarwch hwn yn adeiladu ar lwyddiant cynlluniau sy'n bodoli eisoes megis Cynllun Llwybr Carlam Ffeithiol Cymru, a gyflwynir ar y cyd â'r BBC a Sianel 4, partneriaeth hyfforddi lwyddiannus S4C â TAC a chyd-lansio cynllun RAD Cymru gyda phartneriaid eraill.

### 3. Codi proffil Cymru

- Byddwn yn nodi cyfleoedd i godi proffil Cymru yn rhyngwladol, gan gynhyrchu cynnwys sy'n portreadu storïau lleol gydag apêl fyd-eang. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau fel y Gwyll, Craith, yr Amgueddfa, 35 Diwrnod, Un Bore Mercher, Gwledd, Am Dro, a Bois y Pizza sydd wedi denu cynulleidfa ryngwladol;
- Byddwn yn datblygu cynnwys o'r radd flaenaf gydag apêl fasnachol, gan fanteisio ar bwyntiau gwerthu unigryw Cymru gan gynnwys ei thalent, ei thirwedd, ei hiaith a'i diwylliant, gan atgyfnerthu enw da Cymru am gynnwys o ansawdd uchel;
- Byddwn yn rhannu data ar ein cynulleidfaoedd newidiol a'n tirwedd gynhyrchu er mwyn llywio ein penderfyniadau buddsoddi yn well;
- Byddwn yn hybu mewnfuddsoddi yng Nghymru drwy weithio gyda chynhyrchwyr cynyrchiadau ar y cyd, dosbarthwyr a darlledwyr tramor;
- Byddwn yn cytuno ar strategaeth a chynllun marchnata a chyfathrebu ar y cyd a chyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

### 4. Y Gymraeg

- Byddwn yn nodi ac yn cefnogi cyfleoedd i ddatblygu gweithlu dwyieithog ar draws y sector sgrin;
- Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o gynnwys a chomisiynau S4C i gefnogi'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- Byddwn yn defnyddio cynnwys S4C i gefnogi addysg a dysgu yng Nghymru gan gynnwys drwy blatfform Hwb Llywodraeth Cymru a thrwy bartneriaeth S4C â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- Byddwn yn nodi cyfleoedd i ddefnyddio cynnwys S4C i helpu i ddatblygu technoleg gynorthwyol a fydd yn cefnogi hygyrchedd cynnwys Cymraeg ar draws platfformau, gan gynnwys technoleg lleferydd-i-destun Gymraeg.

### Ymrwymiadau cyflawni

**Mae S4C yn ymrwymo i wneud y canlynol:**

- Neilltuo hyd at £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer ffilmiau Cymraeg, gan nodi effaith yr amser y bydd yn ei gymryd i sefydlu proses i ariannu ffilmiau Cymraeg â’r arian sydd ar gael yn y tymor byr;
- Buddsoddi o leiaf £6 miliwn y flwyddyn mewn dramâu teledu gwreiddiol am y tair blynedd nesaf, gyda £300,000 yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygu dramâu newydd;
- Parhau i fuddsoddi o leiaf £200,000 y flwyddyn mewn datblygu sgiliau a thalentau er mwyn sicrhau gweithlu dwyieithog, medrus iawn mewn sector cynhyrchu sy'n cynrychioli Cymru fel y mae heddiw. Yn benodol, byddwn yn datblygu sgiliau ym meysydd â blaenoriaeth fel creu cynnwys digidol arloesol, adrodd storïau a sgriptio, a'r rhai sydd eu hangen i sicrhau bod rhaglenni ffeithiol yng Nghymru yn dod yr un mor llwyddiannus â dramâu;
- Parhau i ddatblygu cynnwys gwreiddiol ar gyfer rhaglenni ffeithiol a rhaglenni nodwedd o dan frand S4C Originals;

- Strategaeth amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant newydd a fydd yn parhau â gwaith S4C tuag at sector a chynnwys sy'n adlewyrchu Cymru fel y mae heddiw – ar y sgrin a'r tu ôl i'r camera. Byddwn yn cefnogi partneriaethau a phrosiectau hyfforddi i ddod â phobl heb gynrychiolaeth ddigonol i weithio ar gynnwys S4C, gan weithio gyda Chymru Greadigol, darlledwyr a phartneriaid eraill gan gynnwys TAC, yr undebau creadigol, Cynghrair Sgrin Cymru, It's My Shout, Culture Connect Wales, Theatr Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru ac eraill. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar wella cynrychioli pobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn y sector;
- Gweithio tuag at sector sgrîn ddi-garbon, diwastraff yng Nghymru a chadwyn gynhyrchu gynaliadwy ar gyfer S4C drwy ein gwaith gydag Albert.
- Parhau i ddarparu/cynyddu darllediadau newyddion Cymraeg o ansawdd da ar blatfformau digidol a llinellol i gynnig llawer o leisiau;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i hwyluso'r gwaith o ddarganfod a chael mynediad at dalent frodorol o bob cwr o Gymru. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar gyllid datblygu ar draws sector cynhyrchu annibynnol Cymru;
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i sicrhau llwybrau i'r sector ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, gan gynnwys prentisiaethau, hyfforddeiaethau â thâl, bwrsariaethau a chymalau cymdeithasol mewn contractau'r rhai sy'n cyflenwi cynnwys i S4C.

**Mae Cymru Greadigol yn ymrwymo i wneud y canlynol:**

- Cefnogi uchelgeisiau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn y flwyddyn ariannol gyntaf, drwy fuddsoddi mewn cynnwys sy'n bodloni'r amcanion hyn;
- Nodi adnoddau gan gyllideb Cymru Greadigol i gefnogi amrywiaeth o fentrau neu ymyriadau strategol y cytunwyd arnynt gan y ddau barti. Yn 2021/22 bydd hyn yn cynnwys:
    - Ymrwymo arian ar gyfer naw prosiect datblygu mewn partneriaeth ag S4C drwy rownd 21/22 y Gronfa Ddatblygu;
    - Nodi cyfleoedd â thâl ar gyfer: partneriaethau cynhyrchu eraill, cymorth o fewn cwmnïau, denu talent, cysgodi talent, peilota, lleoliadau a datblygu proffesiynol i atgyfnerthu iechyd hirdymor sector sgrin Cymru. Nodi adnoddau i gyd-fynd ag ymrwymiad S4C drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn i ddatblygu talent, sgiliau a busnesau yng Nghymru, naill ai drwy wella mentrau sy'n bodoli eisoes, neu drwy ddatblygu a chytuno ar rai newydd, ategol.
- Neilltuo hyd at £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer ffilmiau Cymraeg i ategu buddsoddiadau S4C, gan nodi effaith yr amser mae'n ei gymryd i sefydlu proses i ariannu ffilmiau Cymraeg â lefel y gwariant sydd ar gael yn y tymor byr;
- Sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail teilyngdod, yn ôl y gwerth y mae'n ei gyfrannu at y nodau a'r uchelgeisiau a rennir a hynny mewn ffordd deg a thryloyw;
- Gweithio gydag S4C a phartneriaid eraill i hwyluso'r gwaith o ddarganfod a chael mynediad at dalent frodorol o bob cwr o Gymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag S4C i fanteisio i'r eithaf ar effaith rowndiau cyllid datblygu yn y dyfodol ar draws y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru;
- Sefydlu Corff Sgiliau Diwydiannau Creadigol o fewn Cymru Greadigol a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau creadigol;

- Cymorth ar gyfer mentrau tymor byr a thymor canolig i hirdymor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau gyda'r sector, gan gynnwys drwy brentisiaethau a hyfforddeiaethau â thâl ar gynyrchiadau;
- Sicrhau bod cymorth datblygu sgiliau a thalent ar gael i gefnogi uchelgeisiau ar y cyd ar gyfer sector amrywiol a chynhwysol;
- Camau i gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy y sector, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo ac ysgogi arferion da, megis achredu Albert.
- Buddsoddi i gynyddu'r cyfleusterau stiwdio o safon sydd ar gael i ateb y galw a chefnogi twf y sector ledled Cymru;
- Cynrychioli buddiannau Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch darlledu, gan gydnabod annibyniaeth darlledwyr ar lywodraeth;
- Gweithio ochr yn ochr ag S4C i gefnogi'r sector brodorol i werthu ei storïau i'r byd, i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd rhyngwladol ac i hyrwyddo talent ac allbwn Cymru;
- Gweithio mewn partneriaeth ag S4C, cyflogwyr ac undebau llafur, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddull teiran o ymdrin â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a lles;
- Gweithio gydag adrannau ehangach Llywodraeth Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig o weithio gydag S4C i gefnogi blaenoriaethau strategol.

**Tymor ac Adolygu'r Memorandwm**

Mae'r cytundeb partneriaeth cychwynnol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a 31 Mawrth 2024, gydag adolygiad ffurfiol ar ddiwedd y 12 mis cyntaf. Rhagwelir y bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio fel y bo'n briodol i'w adnewyddu ar ddiwedd yr ail flwyddyn am gyfnod arall.

Bydd y mentrau a amlinellir yn y bartneriaeth hon yn cael eu monitro a'u mesur yn chwarterol, gyda'r ddau barti yn rhannu gwybodaeth am brosiectau cyfredol i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion posibl yn ystod tymor y Memorandwm.

Grŵp a fydd yn cael ei sefydlu i gynnwys cynrychiolwyr perthnasol o S4C a Chymru Greadigol a fydd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Memorandwm.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw hwn ac ni fwriedir iddo fod yn gyfreithiol rwymol. Mae'r ddau barti wedi ymrwymo i gyflawni'r uchelgeisiau a rennir; fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw hynny'n bosibl.

**Y Partïon**

**<u>S4C</u>**

S4C yw'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg. Cafodd ei lansio ym 1982 a dyma'r unig wasanaeth darlledu llawn amser yng Nghymru. Mae'n cyhoeddi cynnwys ar-lein, ar ei chwaraeydd S4C Clic, ar deledu llinellol, drwy ei ap Newyddion ac ar iPlayer. Mae S4C yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae S4C yn ddarlledwr comisiynu ac yn buddsoddi mewn cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru. Mae ganddi gyllideb flynyddol ar gyfer cynnwys o tua £65 miliwn.

O fis Ebrill 2022, bydd ei chyllid cyhoeddus i gyd yn dod o ffi'r drwydded deledu. Mae ymrwymiadau S4C yn ddarostyngedig i setliad ffi'r drwydded.

**Cymru Greadigol**

Cafodd Cymru Greadigol ei lansio ym mis Ionawr 2020 i ddatblygu a chynyddu’r diwydiannau creadigol yng Nghymru.  Mae Cymru Greadigol yn gorff mewnol Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cyllideb Cymru Greadigol ar gyfer y flwyddyn ariannol 21/22 yw £12,989,000 i gefnogi'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys y sector sgrin yng Nghymru, yn ogystal â chymorth ac adnoddau'r asiantaethau partner.

**Llofnodwyr i’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn:**



**…………………………………..**

**Owen Evans**
**Prif Weithredwr, S4C**



**.........................................................................**

**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a’r Prif Chwip**